Teitl swydd: Prif Swyddog Ymddiriedolaeth Ynys Enlli **Hyd y cytundeb**: Parhaol (yn amodol ar gyllid) **Cyflog**: yn dibynnu ar brofiad, hyd at £30,000 am 3 diwrnod (£50k pro rata) **Dyddiad cychwyn**: Gorffennaf 2024 Mae Ymddiriedolaeth Ynys Enlli yn chwilio am arweinydd profiadol, gyda phrofiad o reoli ac adeiladu timau, i arwain ymddiriedolaeth elusennol sefydledig i fenter gymdeithasol sy'n datblygu. Dylai fod gennych hanes profedig o gynhyrchu incwm cynaliadwy ac awydd i ymuno â'r sefydliad ar gyfnod cyffrous yn ei ddatblygiad. Mae Ynys Enlli yn anelu at fod yn esiampl o fywyd cynaliadwy ynys Cymreig sy'n cefnogi cymuned ynys fywiog, economi ac ecoleg iach. Rydym yn chwilio am rywun sydd â'r profiad, yr awydd a'r uchelgais i gyflawni hyn. Wrth i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli gychwyn ar gyfnod newydd, gyda thîm 7 aelod o staff, mae'r Ymddiriedolaeth yn chwilio am berson brwdfrydig ac ymroddedig i gymryd rôl arweiniol wrth reoli'r tîm, gan arwain ar weledigaeth yr Ymddiriedolaeth, gweithio'n agos gyda'r ystod eang o randdeiliaid sy'n gysylltiedig ag Enlli ac adeiladu ffrydiau incwm newydd cynaliadwy. Bydd y rôl newydd sbon hon yn gweithio'n agos gyda grŵp o ymddiriedolwyr deinamig, cefnogol a chadarn, a thîm staff rhagorol. Dros y pum mlynedd nesaf bydd yr Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar wella'r amgylchedd adeiledig a naturiol a threftadaeth yr ynys, yn ogystal ag ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd i sicrhau hygyrchedd ac amrywiaeth.	**Job Title:** Prif Swyddog Ymddiriedolaeth Ynys Enlli **Contract length:** Permanent (subject to funding) **Salary**: dependent on experience, up to £30,000 for 3 days (£50k pro rata) **Start date:** July 2024 Bardsey Island Trust is seeking an experienced leader, with management and team building experience to lead an established charitable trust into an emerging social enterprise. You should have a proven track record in generating sustainable income and a desire to join the organisation at an exciting period of development. Ynys Enlli aims to be an exemplar of sustainable Welsh island life that supports a vibrant island community, economy and healthy ecology. We are looking for someone with the experience, desire and ambition to achieve this. As the Bardsey Island Trust enters a new era, with a newly appointed team of 7 staff, the Trust is looking for an enthusiastic and committed person to take a leading role in managing the team, leading on the Trust's vision, working closely with the wide range of stakeholders linked to Enlli and building new, sustainable income streams. The brand new role will work closely with a dynamic, supportive and robust trustee group and an excellent staff team. Over the next five years the Trust will focus on improving the built and natural environment and the island's heritage, as well as engaging with new audiences to ensure accessibility and diversity.

Manteision y swydd: • Gweithio hyblyg, cynnig cyflog cystadleuol am wythnos 3 diwrnod. • Ymweliadau rheolaidd ag ynys orau Cymru (ond rydym ychydig yn rhagfarnllyd) • Gweithio gyda thîm ymroddedig ac ymgysylltiol • Bod yn wneuthurwr newid pwysig ar adeg allweddol yn nyfodol Enlli • Gweithio mewn partneriaeth â mentrau cymdeithasol lleol a sefydliadau cymunedol i hyrwyddo'r economi leol **Profiad hanfodol** • Rheoli pobl a thimau. • Profiad sylweddol o adeiladu tîm • Profiad gweledigaeth ac arwain • Sgiliau cyfathrebu cryf - gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid • Ymgysylltu a chynnwys rhanddeiliaid • Dealltwriaeth o fentrau cymdeithasol • Creu incwm a datblygu busnesau cynaliadwy • Yn rhugl mewn Cymraeg ysgrifenedig a llafar • Datblygu a chyflwyno strategaethau ymgysylltu sefydliadol • Adeiladu arweinyddiaeth yn y tîm ehangach/rheoli tîm, goruchwylio staff a gosod targedau • Rheoli prosiectau • Ceisiadau grant, gweithredu a rheolaeth ariannol. Rheoli'r gyllideb mewn cysylltiad â'r Trysorydd. • Penodi a rheoli ymgynghorwyr allanol • Sefydlu partneriaethau allweddol a chysylltu â mentrau cymdeithasol, sefydliadau cymunedol a statudol, deiliaid grantiau a sefydliadau gwirfoddol. • Sgiliau TG da	**Perks of the job:** ● Flexible working, offer a competitive salary for a 3-day week. ● Regular visits to Wales' best island (but we're a little biassed) ● Working with a committed and engaged team ● Being an important change-maker at a key point in Enlli's future ● Working in partnership with local social enterprises and community organisations to promote the local economy **Essential experience** ● People and teams management. ● Significant team building experience ● Visioning and leadership experience ● Strong communication skills - with a wide variety of stakeholders ● Stakeholder engagement and involvement ● Understanding of social enterprises ● Income generating and sustainable businesses development ● Fluent in written and spoken Welsh ● Developing and delivering organisational engagement strategies ● Building leadership in the wider team / team management, staff supervision and setting targets ● Project management ● Grant applications, implementation and financial management. Budget management in liaison with the Treasurer. ● Appointing and managing external consultants ● Establishing key partnerships and liaising with social enterprises, community and statutory organisations, grant holders and volunteer organisations.

Dymunol • Gwybodaeth am y trydydd sector a chyllid grant • Deall economi profiad ymwelwyr • Datblygu profiad ar-lein • Gwybodaeth am Enlli a Phen Llŷn. • Gwybodaeth am weithrediadau ar ynys fechan. • Gwybodaeth am wasanaethau cychod. **Sut i wneud cais:** Anfonwch eich CV a llythyr eglurhaol at **swyddienlli@gmail.com** erbyn **12.00 hanner dydd** ar **22 Mai 2023** Cyfweliadau i'w cynnal ar 14eg Mehefin 2024 gyda'r potensial ar gyfer dwy rownd o gyfweliadau.	• Good IT skills **Desirable** • Knowledge of the third sector and grant funding • Understanding visitor experience economy • Online experience development • Knowledge of Enlli and Pen Llŷn. • Knowledge of operations on a small island. • Knowledge about boat services. **How to Apply:** Please send your CV and a covering letter to **swyddienlli@gmail.com** by **12.00 noon** on **22 May 2023** Interviews to take place on 14th June 2024 with a potential for two rounds of interviews.